

## CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn via VIDEO CONFERENCE, Dydd Mawrth, 7 Medi 2021 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Hugh Evans, Peter Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Alan Hughes, Hugh Irving, Brian Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Richard Mainon, Christine Marston (Vice-Chair), Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, David Williams, Eryl Williams, Emrys Wynne a Mark Young

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (GB), Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Gwesteiwr Zoom a Gweddarlledu (KJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Brian Blakeley, Alan James, Geraint Lloyd-Williams, Anton Sampson, Cheryl Williams a/ac Huw Williams

#### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

#### 3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion bryn.

#### CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD PAUL PENLINGTON -

"Yn dilyn tynnu milwyr y DU o Affganistan, a allwch ddweud wrthym faint o ffoaduriaid unigol dilynol rydym yn bendant yn eu cymryd yn Sir Ddinbych a phryd fyddant yn cyrraedd?"

**Ymateb gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth** – "rydym yn meddwl am y sawl a effeithiwyd gan y digwyddiadau trasig diweddar yn Affganistan, gan gynnwys y sawl sy'n byw yma, cyn filwyr, cyfieithwyr a ffoaduriaid eraill sy'n pryderu am aelodau o'u teulu gartref.

Rydym i gyd wedi gwyllo mewn ofn wrth i ddigwyddiadau ddatblygu yn Affganistan dros y misoedd diwethaf, gan achosi gymaint o ansicrwydd i'w phobl.

Gallaf gadarnhau bod aelodau'r Cabinet wedi trafod y sefyllfa o ran ffoaduriaid o Affganistan ddoe, ac wedi cytuno y dylai Sir Ddinbych gynyddu ein hymrwymadau presennol drwy'r Cynllun Adsefydlu Byd-eang i ddeg teulu. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnig tai a chefnogaeth i bum teulu o Affganistan ar hyn o bryd, er mae'n bosib iawn y caiff ei ymestyn os yw'r sefyllfa a'r cynllun yn parhau ar ôl y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn ychwanegol i'r ymrwymiad presennol i gefnogi pum teulu y flwyddyn dan Raglen Ffoaduriaid o Syria a Byd-eang y cytunwyd arni rhai blynyddoedd yn ôl. Mae un teulu o Affganistan eisoes wedi ei dderbyn ac wedi ymgartrefu yn Sir Ddinbych dros y bythefnos ddiwethaf.

Mae llety yn cael ei gyflenwi ledled y sir, yn y sector rhentu preifat i ddechrau, yn unol â'r rhaglen ffoaduriaid gyfredol, ac rydym eisoes wedi cael nifer o gynigion o ran llety ystafelloedd sengl i dai 5 ystafell wely. Er ein bod yn croesawu cynigion o ran llety, ni fydd yn bosib o hyd eu defnyddio, oherwydd anghenion teuluoedd unigol.

Yn anffodus, nid yw Sir Ddinbych yn gallu derbyn cynigion o ran celfi, dillad, tegau ac ati, ond rydym yn gweithio ar y cyd gyda sefydliadau eraill a fydd yn ceisio dod o hyd i ffyrdd effeithiol o ddefnyddio'r cynigion caredig hyn o gymorth.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi rhaglen ariannu blwyddyn o hyd ar gyfer cynllun Affganistan, er mwyn i Awdurdodau Lleol ddarparu cefnogaeth o ran addysg a swyddi. Yn ychwanegol at hynny, maent wedi nodi ymrwymiad parhaus i gefnogi costau tai. Mae'r cyllid yn debyg i beth a dderbyniwyd gan y Cyngor i'r Cynllun Unigolion Diamddiffyn o Syria, a bydd aelodau'n ymwybodol ein bod wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus i gefnogi 22 teulu dros y pum mlynedd diwethaf i gael tai ac addysg, gyda thri unigolyn nawr yn gweithio ac un yn ymgeisio am eu trwydded yrru HGV. Maent wedi cael eu cefnogi gan Fentor penodol yn Sir Ddinbych yn Gweithio, a ariannwyd gan y cynllun.

Mae aelodau'r Cabinet yn falch o allu cefnogi teuluoedd o Affganistan yn unol â'r dymuniad yng Nghymru i gael ei gweld fel noddfa i sicrhau y gall teuluoedd integreiddio o fewn cymunedau Cymraeg o'u diwrnod cyntaf yma.

Fe fyddwn yn gwneud popeth y gallwn i roi tai priodol a chroeso cynnes fel y bydd ein cymdogion newydd yn dod yn rhan bwysig o'n cymuned, fel y mae cynifer wedi ei wneud yn y gorffennol.

O wybod y sefyllfa o ran tai, bydd hyn yn sicr yn dasg anodd, ond yn un yr ydym yn llwyr fwriadu ei chyflawni.

Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn chwarae ei ran mewn cefnogi'r Rhaglen Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid a, thra bod yr ymrwymiad hwn mewn perthynas â Sir Ddinbych, rydym yn gweithio'n rhanbarthol ac ar lefel strategol i rannu gwybodaeth a chymorth fel bo'n briodol."

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2021.

**PENDERFYNWYD** *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2021 yn gofnod cywir.*

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2021.

**PENDERFYNWYD** *cadarnhau bod cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2021 yn gofnod cywir.*

## 5 AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yr adroddiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth (a gylchredwyd yn flaenorol) i dynnu sylw aelodau at Raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth CLILC a'r camau gweithredu a gymeradwywyd gan Gyngor CLILC, ynghyd â chais i bob Cyngor yng Nghymru ymrwmo i fod yn 'Gynghorau Amrywiol'.

Roedd gan CLILC Raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth uchelgeisiol i geisio sicrhau bod siambrau cynghorau yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Roeddent wedi bod yn ystyried ffyrdd o sicrhau mwy o amrywiaeth ar ôl etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022.

Ym mis Medi 2018, cytunodd Cyngor CLILC i gymryd camau i gynyddu cydraddoldeb rhywiol ac amrywiaeth mewn Cynghorau cyn etholiadau 2022. Roedd hyn er mwyn cydnabod y diffyg amrywiaeth sydd yng Nghynghorau Cymru. Sefydlwyd gweithgor trawsbleidiol er mwyn edrych ar dangynrychiolaeth ehangach mewn democratiaeth. Mewn cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ym mis Mawrth eleni, cafodd Cyngor CLILC adroddiad gan y gweithgor trawsbleidiol hwnnw gyda chynigion wedi'u cynllunio i gyflawni newid sylweddol mewn amrywiaeth ar ôl etholiadau 2022.

Cytunodd Cyngor CLILC yn unfrydol bod angen ymdrech unedig ar y cyd ar draws teulu llywodraeth leol a phleidiau gwleidyddol. O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, anfonwyd llythyr at bob Awdurdod Lleol yng Nghymru, wedi'i lofnodi gan bob un o arweinwyr y grwpiau gwleidyddol a gaiff eu cynrychioli ar Gyngor CLILC. Mae copi o'r llythyr hwnnw wedi ei atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad a gylchredwyd yn flaenorol.

Ceisiwyd ymrwymiad i'r datganiad canlynol:

Mae'r Cyngor hwn yn ymrwmo i fod yn Gyngor Amrywiol.

Rydym yn cytuno i:

- Ddarparu ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth mewn democratiaeth

- Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, gan hyrwyddo'r safonau uchaf o ymddygiad
- Gosod Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol lleol cyn etholiadau lleol 2022. Arddangos ymrwymiad i ddyletswydd gofal ar gyfer Cynghorwyr.
- Darparu hyblygrwydd ym musnes y cyngor drwy adolygu ein trefniadau ymarferol ar gyfer cynnal cyfarfodydd
- Sicrhau fod yr holl aelodau yn ymwybodol o'r lwfansau a'r cyflogau y mae ganddynt hawl iddynt, yn arbennig unrhyw ad-daliadau am gostau gofal, fel bod yr holl aelodau yn derbyn ad-daliadau teg am eu gwaith ac nad yw rôl yr aelod yn gyfyngedig i'r rhai a all ei fforddio.

Os yw'r datganiad i'w gymeradwyo, byddai adroddiad mwy manwl yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol cyn etholiadau llywodraeth leol 2022.

Yn ystod trafodaethau codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cododd y Cynghorydd Tony Thomas y mater ei fod yn y gorffennol o gael ei enwebu i fod yn Gynghorydd wedi gorfod ymddiswyddo o'i swydd fel athro. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd fod CLILC wedi bod yn edrych ar yr agwedd honno o'r broses enwebu.
- Cododd y Cynghorydd Bobby Feeley fater y cydbwysedd rhwng y rhywiau yng Nghyngor Sir Ddinbych. Roedd 14 o'r Cynghorwyr yn fenywod, roedd 1 aelod o'r Cabinet yn fenyw a dim ond un Cadeirydd o'r amrywiol bwyllgorau oedd yn fenyw. Roedd hyn yn gofyn am newid diwylliannol gan, yn ei barn hi, nid oedd llawer o fenywod yn gweld eu hunain mewn gwleidyddiaeth. O ran cynghorwyr hŷn, roedden nhw yn dod â llawer o brofiad i'r rôl felly byddai cyngor amrywiol yn fwy priodol.
- Nodwyd fod cyfarfodydd wedi bod yn cael eu cynnal o bell o ganlyniad i covid. Byddai cyfarfodydd o bell yn rhoi cyfle i fwy o bobl sefyll, gan na fyddai'n cymryd amser i deithio i ac o fannau cyfarfod. Roedd hyn yn hynod o fuddiol os oedd unigolyn sy'n gweithio yn dymuno sefyll fel cynghorydd yn y dyfodol.
- Codwyd mater camdriniaeth i gynghorwyr gan aelodau o'r cyhoedd, yn arbennig cynghorwyr benywaidd. Ni fyddai hyn yn cael ei oddef a'r gobaith oedd na fyddai hyn yn atal pobl rhag cyflwyno eu hunain i sefyll fel cynghorwyr yn y dyfodol.
- Cadarnhawyd mai rhan allweddol o'r datganiad fyddai i annog safon uchel iawn o ymddygiad gan gynghorwyr.
- O ran amrywiaeth y cyngor y bwriad oedd annog darpar ymgeiswyr waeth beth fo'u rhyw, oed, hil, ethnigrwydd, anabledd ayb i sefyll fel cynghorwyr.
- Roedd sioeau teithiol i'w cynnal mewn ardaloedd amrywiol i alluogi cymaint o wybodaeth â phosibl i gael ei throsglwyddo i aelodau o'r cyhoedd a fyddai â diddordeb mewn sefyll fel darpar ymgeiswyr yn y dyfodol.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mark Young ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Bobby Feeley i dderbyn yr adroddiad.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD:**

- (i) *Bod y Cyngor yn nodi'r cynnwys a'r camau gweithredu a amlinellwyd yn adroddiad a llythyr Cyngor CLILC sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 a 2.*
- (ii) *Bod y Cyngor yn ymrwymo i fod yn 'Gyngor Amrywiol' a'i fod yn cefnogi'r egwyddorion a nodir yn y datganiad drafft yn Atodiad 3.*
- (iii) *Bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cael y dasg o ddatblygu Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol cyn etholiadau llywodraeth leol 2022.*

## **6 RHYBUDD O GYNNIG**

Cyflwynodd y Cyngorydd Tony Thomas y Rhybudd o Gynnig canlynol ar ran Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

“Bod Cyngor Sir Ddinbych yn penodi Cefnogwr Pobl Ifanc ar gyfer pawb o dan ddeunaw oed.”

Yn ystod trafodaethau trylwyr gofynnwyd beth fyddai rôl Cefnogwr Pobl Ifanc. Awgrymwyd cyfeirio rôl y Cefnogwr Pobl Ifanc at Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i ddiffinio'r rôl ac yna cyflwyno adroddiad arall i'r Cyngor Llawn yn y dyfodol.

Cynigiodd y Cyngorydd Tony Thomas y gwelliant fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i ddiffinio'r rôl a bod adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn, ac eiliwyd hynny gan y Cyngorydd Martyn Holland.

Cynhaliwyd pleidlais a phleidleisiodd y mwyafrif o aelodau o blaid, gydag un aelod yn pleidleisio yn erbyn y gwelliant.

**PENDERFYNWYD** *fod adroddiad ar rôl y Cefnogwr Pobl Ifanc yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i ddiffinio'r rôl a bod adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.*

## **7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, ynghyd â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Sesiynau Briffio'r Cyngor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

- Gweithdy ar y Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gynnal yr wythnos ganlynol
- Gweithdy i'w drefnu cyn diwedd Medi 2021 yn ymwneud â'r ymgynghoriad cyfredol gan Lywodraeth Cymru ar Ganllawiau Statudol ar gyfer Cyd Bwyllgorau Corfforaethol.  
Dyddiad y gweithdy i'w gadarnhau.

***PENDERFYNWYD***, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a Sesiynau Briffio'r Cyngor.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 11.36 A.M.**